



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Jess Thomas - Uned Busnes y Cyngor - Gwasanaethau Llywodraethol
(01443 424110)

Bydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal yn **Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX** ar **DYDD IAU, 5ED RHAGFYR, 2019** am **5.00 PM**.

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 3 RHAGFYR 2019, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

AGENDA

Tudalennau

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Nodyn:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr eitem mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

4. COFNODION

Cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 17 Hydref, 2019.

5 - 8

ARGYMHELLION I'W CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU

5. CAIS: 17/0885

Adeilad newydd i gynnwys bar a lolfa gyhoeddus, cawod ac ystafelloedd newid. (Derbyniwyd Asesiad Risg Mwyngloddio Glo a chynllun bloc diwygiedig ar 18 Medi 2019). Clwb Rygbi Llanilltud Faerdref, Parc Canol, Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1RJ.

9 - 22

6. CAIS: 18/0986

Trosi llawr cyntaf ac ail lawr tafarn o un fflat, ystafell achlysuron ac ystafell ategol i ddau fflat ac un fflat deulawr. Tafarn y Boar's Head, Stryd Fawr, Tonyrefail, y Porth.

23 - 32

7. CAIS: 18/1402

Cais amlinellol ar gyfer Datblygiad Preswyl (gyda phob mater wedi'i gadw ac eithrio mynediad) gyda mannau agored cyhoeddus cysylltiedig, tirlunio a gwaith cysylltiedig arall. Hen Safle Clariant, Ffordd Llantrisant, Llanilltud Faerdref.

33 - 54

8. CAIS: 18/1403

Dymchwel yr adeiladau presennol a chodi 18 o gartrefi fforddiadwy, gwaith gwella priffyrdd, man parcio wedi'i dirlunio a gwaith cysylltiedig. (Derbyniwyd manylion am fynediad diwygiedig i'r briffordd, mesurau tawelu traffig, cynllun y

safle a chynlluniau lleoliad safle ar 18 Medi 2019). Hen Ddepo Bysiau Iard Gelynog, Ffordd Castellau, y Beddau, Pontypridd.

55 - 76

9. CAIS: 18/1419/13

Datblygiad preswyl hyd at 350 o anheddau, tir ar gyfer ysgol gynradd newydd bosibl, siop leol a gwaith cysylltiedig gan gynnwys man agored cyhoeddus, isadeiledd gwyrdd, tirlunio a chreu dau fan mynediad newydd oddi ar Heol Dowlais. Fferm Cwm Isaf, Heol Dowlais, Efail Isaf, Pontypridd, CF38 1BD.

77 - 124

10. CAIS: 19/0387

Adeiladu 17 o fyngalos a gwaith tirlunio, SUDs a gwaith ychwanegol cysylltiedig (derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 18/09/19). Hen Ysgol Gynradd Cwm-bach, Bridge Road, Cwm-bach, Aberdâr.

125 - 142

11. CAIS: 19/0623

Adeilad symudol unllawr i'w ddefnyddio fel Meithrinfa Dechrau'n Deg gyda Chlwb gyda'r Nos i blant. (Derbyniwyd Ffin ddiwygiedig y Llinell Goch ar 03/09/18) (Derbyniwyd y Cynlluniau Diwygiedig ar 03/09/19). (Derbyniwyd Cynllun Bloc/Cynllun Diwygiedig ar 14/11/19). Ysgol Babanod Gwauncelyn, Heol Deg, Ton-teg, Pontypridd.

143 - 160

12. CAIS: 19/0814

Newid defnydd o anheddau preswyl (Dosbarth C3) i 8 o fflatiau myfyrwyr preswyl hunangynhwysol (Sui Generis) gan gynnwys estyniad deulawr yn y cefn. Tai Heddlu 1 a 2, Stryd y Nant, Trefforest, Pontypridd.

161 - 172

13. CAIS: 19/0866

Wyth cartref fforddiadwy 2 ystafell wely a phedwar fflat 1 ystafell wely fforddiadwy, parcio ceir, tirlunio a gwaith ategol. Tir i'r gorllewin o 74 Stryd Howard, Cwm Clydach, Tonypanydy.

173 - 184

14. CAIS: 19/0895

Creu cyfleuster parcio oddi ar y stryd gyferbyn â rhifau 78 - 106 Park Street, Clydach Vale. Tir gyferbyn â 78 - 106 Park Street, Clydach, Tonypanydy.

185 - 192

15. CAIS: 19/0950

Dymchwel hen Ysgol Gynradd Penygraig, ailddatblygu'r safle ar gyfer 27 cartref fforddiadwy a gwaith cysylltiedig. Ysgol Iau Pen-y-graig, Hendrecafn Road, Pen-y-graig, Tonypanydy.

193 - 212

ARCHWILIAD O'R SAFLE

16. CAIS: 19/0311/10

Adeilad storio a phrosesu gwastraff newydd, pont bwysu, ystafell les a storfa, parcio ceir (rhan ôl-weithredol) (derbyniwyd FCA, manylion draenio safle a chynlluniau wedi'u cywiro/ychwanegol ar 25/07/2019), Canolfan Ailgylchu Project Red, Fferm Ystrad Barwig Isaf, Crown Hill, Llanilltud Faerdref, Pontypridd.

213 - 232

CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO

17. CAIS: 18/1423/10

Datblygiad preswyl o 76 o anheddau ynghyd â gwaith cysylltiedig (derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 17/05/19) Y Meadows, Coed-Elái, Tonyrefail.

233 - 270

ADRODDIAD ER GWYBODAETH

18. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

Rhoi gwybod i Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 08/11/2019 - 22/11/2019.

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd;
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau;
Trosolwg o Achosion Gorfodi;
Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig.

271 - 280

19. MATERION BRYD

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu

Cylchrediad:-

Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd G Caple)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd P Jarman, Y Cynghorydd D Grehan,
Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd J Williams, Y Cynghorydd S Powell,
Y Cynghorydd W Owen, Y Cynghorydd R Yeo ac Y Cynghorydd D Williams

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol